

PARR-DAVIES, HARRY (gynt DAVIES, HARRY PARR; 1914 - 1955), pianydd a chyfansoddwr

Enw: Harry Parr-davies
Dyddiad geni: 1914
Dyddiad marw: 1955
Rhiant: Rosina Davies (née Parr)
Rhiant: D.J. Davies
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: pianydd a chyfansoddwr
Maes gweithgaredd: Cerddoriaeth; Perfformio
Awdur: Rhidian Griffiths

Ganwyd 24 Mai 1914 yn Llansawel Castell-nedd, Morgannwg, 1914, mab D.J. a Rosina Davies (ganwyd Parr). Addysgwyd ef yn ysgol Dunraven, Treherbert ac yn ysgol ganolraddol Castell-nedd. Amlygodd ddawn gerddorol pan oedd yn blentyn, a dywedir iddo gyfansoddi 30 cân a dwy opereta cyn cyrraedd ei 13 oed. Cafodd addysg gerddorol gan Seymour Perrott, organydd bwrdeisdref Castell-nedd, ac fe'i hanogwyd gan [Syr Walford Davies](#) i wneud gyrfa fel cyfansoddwr clasurol; ond yr oedd cerddoriaeth ysgafn yn fwy at ei ddant, ac astudiodd weithiau Eric Coates ac Edward German er mwyn perffeithio'i grefft. Fe'i cyflwynodd ei hun i'r gantores Gracie Fields a dod yn gyfeilydd iddi ym Mhrydain ac ar deithiau i Ganada a De Affrig. Ef a gyfansoddodd y gân ' Sing as we go ', a ganodd Gracie Fields yn y ffilm *Shipyard Sally* (1939), ac a roes deitl i'w hunangofiant hi; lluniodd hefyd gerddoriaeth i eiriau Phil Park, ' Wish me luck as you wave me goodbye ', a ddaeth yn boblogaidd ar ddechrau Rhyfel Byd II. Am ei gân, ' Smile when you say goodbye ' derbyniodd flaendal o £1000, y swm uchaf a dalesid ar y pryd am gân unigol. Ymhlith ei sioeau llwyfan yr oedd *Black velvet*, *The Lisbon story*, *Her Excellency a Dear Miss Pheobe*. Cyfansoddodd fiwsig i ffilm Gracie Fields, *This Week of Grace* (1933), a bu'n llunio caneuon i berfformwyr eraill megis George Formby.

Bu farw yn ei gartref yn Knightsbridge, Llundain, 14 Hydref 1955, a chladdwyd ef ym mynwent Ystumllwynarth, ger Abertawe.

Awdur

Rhidian Griffiths

Ffynonellau

The Times, 15 Hydref 1955

Western Mail, 15 Hydref 1955

Neath Guardian, 21 Hydref 1955

Delweddau

Art UK: [Harry Parr Davies \(1914–1955\)](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [78276787](#)

Wikidata: [Q5671484](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

